# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar, 11 Chwefror, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, C. Stallard, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Is-Gadeirydd (yn y Gadair) y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S. Lloyd-Selby (Cadeirydd), E. Penn a S.T. Wiliam.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CYLLIDEB GYCHWYNNOL 2025/26 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2025/26 I 2029/30 CYNIGION AR GYFER YMGYNGHORI (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025 gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth. Diben y cyfeiriad a'r adroddiad oedd cyflwyno cynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer ymgynghori â Phwyllgorau Craffu'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor a amlinellodd y canlynol:

- Cefndir Cyllideb 2025/26 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 i 2029/30.
- Setliad 2025/26 Llywodraeth Cymru (LlC).
- Y rhagolygon economaidd presennol.
- Y prif benawdau ar gyfer y cynigion Cyllideb a CATC.
- Sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.
- Yr adolygiad o bwysau costau ac arbedion.
- Y dyraniad cyffredinol o adnoddau.
- Manylion ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor.
- Ymateb y Cyngor i ymgynghoriad LlC ar y setliad dros dro.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth at y costau a'r pwysau ariannol a chyllidebol yn eu gwasanaethau priodol a oedd yn amrywio o waredu gwastraff, atgyweirio priffyrdd drwodd i gostau'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor am ei farn ar y dull gweithredu cyffredinol, bwysau cost, arbedion a syniadau ac awgrymiadau amgen. Ymatebodd y Pwyllgor fel a ganlyn.

Ynglŷn â phryderon y Cynghorydd Norman o ran y cynigion i dorri'r gyllideb ar gyfer parciau, ac a fyddai hyn yn arwain at ddileu swyddi neu adleoli staff, esboniwyd bod gwaith o ran ail-lunio yn y maes hwn a meysydd eraill ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth yn dal i fynd rhagddo. Mewn meysydd o'r fath roedd y Cyngor wedi cadw staff asiantaeth ochr yn ochr â rhewi penodiadau staff newydd yn dilyn staff yn gadael neu'n ymddeol. Nid y nod oedd i hyn gael effaith negyddol ar swyddi parhaol, ond roedd yn dal yn gynnar yn y broses ail-lunio a fyddai'n cymryd ychydig fisoedd.

Cododd y Cynghorydd Hooper sawl pwynt:

- Parhaodd yr arbedion rhagamcanol o'r mesurau parcio ceir arfaethedig yn rhan o'r cynigion ariannol hyn, ac ailadroddodd effeithiau'r rhain ar fusnesau a chymunedau lleol a drafodwyd yng Nghyfarfod Arbennig diweddar y Pwyllgor.
- Roedd y Cyngor yn wynebu bod ar ben mwyaf heriol y toriadau oherwydd Polisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Cyfeiriodd at y sylwadau a wnaed am wasanaethau hamdden a'r cyfleoedd incwm a refeniw masnachol yno, ac a allai mwy o fanylion gael eu rhoi. Roedd gweithredwyr masnachol o'r fath eisoes dan bwysau ariannol, a allai waethygu yng ngoleuni mesurau fel taliadau parcio ceir.

- O ran Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a oedd yn cael eu hystyried i'w gwerthu, eu cau neu eu trosglwyddo, roedd yn ymddangos bod hyn yn ddull dirywiol, oherwydd y toriadau mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a byddai'n gweld dirywiad pellach i ganol trefi lleol, ac ati.

Mewn ymateb, esboniwyd, gyda'r arbedion parcio ceir rhagamcanol, bod y rhain yn rhagddyddio'r Cyfarfod Arbennig, oherwydd bod yr eitem hon yn gyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025. Byddai'r arbedion arfaethedig yn destun ymgynghoriad pellach cyn cwblhau cyllideb y Cyngor. O ran trosglwyddiadau asedau, cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o hyn hefyd, gyda rhai sefydliadau'n ymwneud â'r rhain yn derbyn cyllid grant a buddsoddiad yn yr asedau hyn, a chael graddau uwch o fynediad at gyllid a chymorth o'r fath na'r hyn y byddai'r Cyngor wedi'i gael ar wahân.

Gwnaeth y Cynghorydd Protheroe sawl sylw hefyd, fel a ganlyn:

- Roedd yn anghytuno â safbwynt y Cynghorydd Hooper ar y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol, a dywedodd y gallai'r rhain fod yn ddatblygiad cadarnhaol i gymunedau lleol, gyda sefydliadau y tu allan i'r Cyngor yn gwneud i asedau o'r fath ffynnu.
- Roedd yn teimlo bod angen adolygu a gohirio'r gostyngiad mewn biniau ym Mro Morgannwg ar ôl gwaredu 25%. Cyfeiriodd at y defnydd tymhorol o finiau a'r galw tymhorol am finiau i waredu sbwriel yn ardaloedd twristaidd glan môr y Fro yn ystod yr haf fel rheswm pam y dylid ystyried hyn. Roedd yr ardaloedd hyn yn destun cryn daflu sbwriel yn ystod misoedd yr haf, er gwaethaf ymdrechion gorau casglwyr sbwriel gwirfoddol, a dylai'r Cyngor ystyried y galw am finiau mewn ardaloedd o'r fath.
- Yn dilyn y pwynt uchod, awgrymodd fod y Cyngor yn ymgymryd â darn addysgol o waith gyda phlant ysgol ynghylch materion taflu sbwriel cyn yr haf. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r ardaloedd glan môr a thwristiaeth hynny, h.y. i liniaru faint o blastig sy'n mynd i'r môr a'r dyfrffyrdd.

Mewn ymateb, esboniwyd y byddai'r Cyngor yn mesur a phwyso yn dilyn y cam diweddaraf hwn o waredu biniau, i ystyried unrhyw faterion a godwyd ac i adolygu sefyllfa a goblygiadau gwaredu biniau. Pe bai pryderon gwirioneddol a sylweddol, yna byddai'r Cyngor yn sicrhau y byddai arolygon sbwriel yn cael eu cynnal ac yn adolygu lle roedd biniau wedi'u gwaredu. O ran ardaloedd gwyliau i dwristiaid, nid oedd unrhyw gynlluniau i waredu'r rhain o'r ardal gyfagos, gan y deallwyd yn llawn bod galw sylweddol am a defnydd sylwedd o'r rhain yn ystod misoedd yr haf. O ran gwaredu biniau fel rhan o'r targed o 25%, roedd hyn oherwydd yr angen i waredu dyblygu a biniau a gamddefnyddiwyd. Ar ôl yr adolygiad hwn, byddai cyfathrebu ac ymgyrch yn cael eu cynnal i gynghori'r cyhoedd am sbwriel ac am fynd ag ef gyda nhw pe na bai biniau ar gael.

Mynegodd y Cynghorydd Ernest ei bryderon am y canlynol:

- O ran y gyfran ostyngol o gyllideb y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, yr effaith ar gymunedau lleol a thrigolion yn gorfod talu lefelau cynyddol o Dreth Gyngor ond gyda llai o wasanaethau yn cael eu darparu gan y Cyngor. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r gyfran sylweddol o'r gyllideb a ddyrannwyd i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, gyda'r ddau faes yn profi gorwariant sylweddol.
- O ran Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol, cyfeiriodd at yr enghreifftiau hynny lle roedd grwpiau cymunedol ac eraill wedi cael trafferth cynnal a rheoli cyn-ganolfannau cymunedol y Cyngor. Roedd y rhain yn ganolfannau hanfodol i'r gymuned yn cynnig ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau, a gallai cyfleusterau o'r fath ddioddef ar ôl trosglwyddo heb ddigon o wirfoddolwyr ac absenoldeb rheolaeth a goruchwyliaeth y Cyngor.

Mewn ymateb, esboniwyd y gallai grwpiau cymunedol ac eraill a gymerodd drosodd cyn-asedau a chanolfannau cymunedol y Cyngor wneud cais a derbyn cyllid i'w helpu i redeg a chynnal cyfleusterau o'r fath, a oedd wedi bod yn her i'r Cyngor oherwydd ei ofynion a'i flaenoriaethau cystadleuol. O ran gwariant ar wasanaethau cymdeithasol ac ysgolion, roedd cynigion wedi'u targedu ar waith ar gyfer ail-lunio'r gwasanaethau hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni ac yn parhau’n gynaliadwy.

Cyfeiriodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau at raddfa a chymhlethdod anghenion addysgol a'r rhai’n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol, a dyletswydd gofal y Cyngor yn y meysydd hyn. Siaradodd hefyd am yr enghreifftiau cadarnhaol a'r llwyddiannau yn ymwneud â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol (h.y. y llyfrgelloedd cymunedol a sefydlwyd), ac roedd y Cyngor yn agored i gymunedau’n cymryd drosodd canolfannau a hybiau lleol i'w helpu i ffynnu. Byddai'r Cyngor yn gallu helpu mentrau o'r fath i ddechrau er mwyn i gymunedau reoli asedau o'r fath yn llwyddiannus. O ran y pryderon a fynegwyd am barciau gwledig, byddai gwaith yn cael ei wneud o ran y mannau gwyrdd a glas, i sicrhau mai'r hyn a ddarparodd y Cyngor oedd yr hyn yr oedd trigolion ei eisiau ac i sicrhau bod y parciau yn parhau’n fasnachol gynaliadwy ac yn niwtral o ran costau.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Bod y sylwadau canlynol yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'w barn gael ei hanfon at y Cabinet.

- O ystyried yr arbedion / cynigion parcio ceir sy'n dal i fod yn rhan o'r adroddiad a'r ymgynghoriad, roedd yn bwysig ystyried y sylwadau, ac ati a wnaed a'u cynnwys fel argymhelliad yng nghyfarfod arbennig Pwyllgor yr Amgylchedd ac Adfywio ar 28 Ionawr ar y cynigion hyn ac, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor, y dylid cyfeirio'r adroddiad yn ôl at y Cabinet gyda'r sylwadau/materion canlynol wedi'u nodi, er mwyn gwneud gwaith ychwanegol ar gynigion yr adroddiad cyn eu gweithredu:
    - Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnig ynghylch trwyddedau parcio i breswylwyr;

  - Bod Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) yn cael eu cymhwyso i bob un o'r cynigion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn teimlo na fu digon o ystyriaeth ar y rhain ac roedd angen yr effeithiau ar y lleoliadau yr effeithiwyd arnynt a gwaith pellach;
  - O ran y pwynt ar y defnydd o AEGau uchod, roedd hyn yn cynnwys maes parcio aml-lawr Court Road, gydag angen gwaith pellach i nodi defnydd cyfredol ac effaith bosibl ei gau ar argaeledd mannau parcio amgen, yr effaith bosibl y gallai hynny ei chael ar drigolion cyfagos ac unrhyw liniaru y byddai ei angen i fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi dyfodol maes parcio Court Road o fewn gweledigaeth ar gyfer canol y dref mewn perthynas ag adnewyddu canol y dref ac y dylid ystyried cynnwys cais cyfalaf i sicrhau dyfodol y maes parcio fel rhan o'r broses honno. Dylid archwilio atebion creadigol i sicrhau dyfodol y maes parcio;
  - O ran y cynigion parcio ar y stryd, rhoddir ystyriaeth bellach i hyn, gan gynnwys cyfnod ar gyfer parcio ceir am ddim o awr neu ddwy awr a/neu barcio tymhorol;
  - Pe bai costau parcio ar y stryd yn cael eu cyflwyno, yna dylid cynnwys cyfnod adolygu i mewn i hynny fel y gellid gwneud newidiadau priodol yn ôl y gofyn;
  - Bod y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â defnyddio unrhyw arian y gellid ei godi drwy gyflwyno taliadau parcio ceir yn cael ei egluro, er mwyn deall yn llawn beth y gellid gwario'r arian hwnnw arno yn benodol;
  - O ran costau parcio oddi ar y stryd, barn y Pwyllgor oedd y dylid gwneud gwaith i wella'r cyfleusterau parcio ceir yn Cliff Walk – Penarth, a Bron y Môr – y Barri, cyn gweithredu codi taliadau yn y lleoliadau hynny;
  - Byddai angen y capasiti gorfodi priodol hwnnw i gyflawni'r amcanion o gyflwyno codi tâl mewn ardaloedd ar y stryd ac oddi ar y stryd;
  - Dylid ystyried pa ddulliau y gellid eu gwneud i sicrhau fforddiadwyedd mewn perthynas â thrwyddedau parcio fel nad oedd preswylwyr lleol a allai fod yn profi caledi ariannol dan anfantais;
  - Mewn perthynas â thaliadau parcio oddi ar y stryd dylid ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol yng Ngorllewin y Fro mewn perthynas â dylunio gwasanaethau meysydd parcio yn yr ardal honno.
- Bod y Cyngor yn ymgymryd â darn addysgol o waith gyda phlant ysgol ynghylch materion taflu sbwriel cyn yr haf.
- Adolygiad a saib o'r gostyngiad mewn biniau ym Mro Morgannwg ar ôl gwaredu 25%.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Er mwyn hysbysu'r Cabinet o sylwadau'r Pwyllgor cyn gwneud cynnig ar y Rhaglen Gyfalaf.

CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2025/26 I 2029/30 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg. Diben y cyfeiriad/adroddiad oedd i'r cynigion gael eu rhannu gyda'r Pwyllgor a Phwyllgorau Craffu eraill ar gyfer ymgynghori, ystyried a thrafod ac i unrhyw sylwadau gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol fel y Pwyllgor Craffu Arweiniol er mwyn i'w safbwyntiau gael eu hanfon i'r Cabinet.

Rhannwyd cyflwyniad ar yr eitem agenda hon gyda'r Pwyllgor, gan grynhoi'r penawdau allweddol, y manylion am y Rhaglen a'r cynigion, y cyllid, y cynlluniau piblinell a'r camau nesaf yn ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf.

Yn dilyn hyn, gofynnodd y Cynghorydd Hooper am eglurhad ynghylch a oedd y gwaith arwynebu ym meysydd parcio Bron y Môr a Cliff Walk wedi'i gynnwys yn y cynigion a'r statws presennol ar y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer ceudyllau. Mewn ymateb, roedd y gwaith arwynebu arfaethedig wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26. O ran pwnc ehangach wynebu, arwynebu a cheudyllau, a'r ochr Rhaglen Gyfalaf ar gyfer hyn, roedd y cyllid ar ei gyfer wedi'i gynnal ar oddeutu £2m gyda'r potensial ar gyfer cyllid pellach drwy gyllid Llywodraeth Cymru. Roedd pwysau cost refeniw hefyd a ddyfarnwyd mewn perthynas â cheudyllau.
Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyfeiriad, yr adroddiad a'r atodiadau ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2025/26 i 2029/30.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

O ystyried cynnwys y cyfeiriad, yr adroddiad a'r atodiadau, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor o'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2025/26 i 2029/30.

ADRODDIAD DIWEDDARU – NEWIDIADAU I'R GWASANAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF 2024 (CAT) –

Diben yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor am berfformiad y maes yn dilyn newidiadau parhaus y gwasanaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu.

Rhannwyd cyflwyniad gyda'r Pwyllgor, i gyd-fynd â'r adroddiad, i grynhoi ac amlygu ei ddiweddariadau a'i ganfyddiadau a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Y diweddaraf ar y gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gwyrdd: manylodd hyn nifer y tanysgrifiadau blynyddol ar gyfer blwyddyn lawn gyntaf y gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gardd newydd. Dywedodd yr adroddiad fod 13,973 o danysgrifwyr yn 2024, hyd at 31 Rhagfyr 2024 sef cynnydd o 1,338 o danysgrifiadau ar 2023 (12,635). Arhosodd pris y gwasanaeth yr un fath â'r flwyddyn ragarweiniol ond yn seiliedig ar dâl blwyddyn lawn o £36 am hyd at 8 bag a £54 am y gwasanaeth diderfyn. Cyfeiriwyd hefyd at ddull cynyddrannol

o ran costau gwasanaeth a'r defnydd o dechnoleg i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau.

- Rhannwyd amlinelliad o'r perfformiad ar gyfer y gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gwyrdd gyda'r Pwyllgor. Roedd y niferoedd uwch o danysgrifiadau wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn osgoi unrhyw effaith niweidiol i'r Bartneriaeth Organig a'r rhwymedigaethau cytundebol cysylltiedig. Roedd yn debygol mai bach iawn oedd y risg bosibl hon erbyn hyn.
- Diweddariad ar y bag du ac ar safleoedd Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC). Roedd y swm cyffredinol o wastraff gweddilliol yn lleihau ac roedd tunelledd ailgylchu yn cynyddu.
- Diweddariadau ailgylchu a gwastraff eraill ar gyfer y Pwyllgor h.y. ar ddileu gwastraff ailgylchadwy cymysg yn raddol a'r treial casglu plastigion meddal i'w gyflwyno yr haf hwn.
- Crynodeb darluniadol ar gyfansoddiad bagiau du, gyda gwastraff bwyd yn parhau'n rhan sylweddol o hyn.
- Rhoddwyd diweddariad ar newidiadau gwasanaeth yn y dyfodol ac mewn perthynas â newidiadau deddfwriaeth a seilwaith gwasanaeth parhaus, o'r adolygiad 'glasbrint' yn 2025, hyd at Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle (Cymru) a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU.
- Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor hefyd ar seilwaith, fel am y Cyfleuster Adfer Adnoddau (CAA), Siop Ailddefnyddio'r Barri a CAGC Llandŵ.
- Rhoddwyd amlinelliad o'r targedau allweddol ar reoli gwastraff ac ailgylchu, gyda 2025 yn flwyddyn dyngedfennol gyda tharged o 70% o ailgylchu.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

O ran ymholiad y Cynghorydd Hooper am nifer y trigolion sy'n defnyddio'r casgliad gwastraff gwyrdd nawr o gymharu â phan gafodd hyn ei gynnwys yn eu Treth Gyngor, esboniwyd nad oedd data o'r fath wedi cael ei fesur ar nifer y bobl a oedd yn rhoi bagiau gwastraff gwyrdd allan yn flaenorol. Yr unig ddata a oedd ar gael oedd yn ymwneud â thunelledd gwastraff gwyrdd, a oedd wedi bod yn gyson i raddau helaeth dros 3-4 blynedd. Hefyd, efallai bod rhai trigolion wedi gwneud rhywfaint o gompostio gartref neu wedi mynd â gwastraff gwyrdd o'r fath i'r ganolfan ailgylchu, na fyddai'n cael ei fesur. O ran ymholiad dilynol y Cynghorydd ynghylch a oedd swm y pren a oedd yn cael ei ailgylchu'n awgrymu bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i wresogi cartrefi oherwydd cost nwy a thrydan ac effaith negyddol hyn yn amgylcheddol, ni welwyd unrhyw gysylltiad o'r fath ac ni ellid cysylltu unrhyw gysylltiad o'r fath â defnydd o'r fath. Y rhan fwyaf o'r pren i fynd i ganolfannau ailgylchu oedd y math gwaith y cartref o bren, yn ogystal â'r pren wedi'i ddefnyddio ar gyfer dodrefn, pren wedi'i lamineiddio, ac ati. Er bod hyn ar lefelau uchel, roedd hyn yn adlewyrchu poblogrwydd prosiectau gwaith y cartref yn hytrach na mwy o ddefnydd o bren fel math o danwydd a ffynhonnell gwres. Gall Llywodraeth Cymru newid y ffocws ar dargedau ailgylchu a gwastraff o dunelledd i ganolbwyntio ar garbon a allai newid deinameg cofnodi a bwrw targedau ailgylchu.

Cododd y Cynghorydd Protheroe ymholiadau ynghylch perthynas y Cyngor â'i gontractwyr gwastraff, eu cyfrifoldeb am ailgylchu a'r farchnad ar gyfer hyn, a rhannodd y pryderon ynghylch sut roedd hyn yn gweithio, gyda rhai cynhyrchion wedi'u hailgylchu heb werth digon mawr i gontractwyr wneud unrhyw beth gyda'r rhain ac felly roedd y rhain yn cael eu rhoi mewn sgipiau gweddilliol o bosibl. Roedd

yn gwerthfawrogi'r gwaith y byddai'r Cyngor yn ei wneud i ymchwilio i hyn. Roedd felly eisiau eglurhad ar yr hyn a wnaeth y contractwyr o ran eu cyfrifoldeb gyda'r marchnadoedd ailgylchu a sut roedd hynny'n gweithio, yn y bôn ble roedd holl ailgylchu'r Cyngor yn mynd os oedd pris da amdano ac a oedd y Cyngor yn ennill unrhyw arian drwy'r rhan honno o'r broses. Esboniwyd bod cyfradd reoli hollgynhwysol yn rhan o'r trefniant contract gyda'r Cyngor a'i gontractwyr. Cododd y contractwyr gyfradd reoli ar y Cyngor a oedd yn cynnwys eu rheolaeth, eu staff, eu peiriannau ac ati, ac roedd ganddynt yr incwm neu'r gost yn gysylltiedig â'r ailgylchu a oedd yn golygu bod angen iddynt wybod ble roedd yr ailgylchu yn mynd a rhoi pob cyrchfan i'r Cyngor o dan y trosglwyddiad a'r drwydded amgylcheddol. Roedd gan y contractwyr dargedau hefyd i'w bwrw o fewn y contract felly roedd yn rhaid iddynt gyflawni cyfradd ailgylchu o 72% o leiaf ac adrodd i Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y trosglwyddiad i'w wneud yn gynaliadwy naill ai yng Nghymru neu'r DU lle bynnag y bo modd. Roedd y Cyngor yn edrych yn agosach ar eu gweithgareddau. Roedd contractwyr, lle'r oedd rhywbeth niweidiol o fewn y marchnadoedd yn tueddu i ddefnyddio sgip gweddilliol yn hytrach na gwneud yr ymdrech i sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei ailgylchu. Felly, roedd hyn wedi bod yn destun pryder, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd y Cyngor yn craffu ar bob gweithgaredd oherwydd pwysigrwydd cyflawni'r gyfradd ailgylchu o 70% felly y camau nesaf fyddai edrych yn fanylach ar ble roedd y deunyddiau hynny'n mynd i weld a allai'r Cyngor gael gwell marchnadoedd. Byddai'r Cyngor hefyd yn ymgymryd â rhywfaint o rannu gwybodaeth â chynghorau eraill yng Nghymru ynghylch gwasanaethau mewnol a gallai'r Cyngor edrych o bosibl ar faint y byddai'n ei gostio mewn gwirionedd i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn hytrach na thalu'r ffi reoli a gallai wneud dadansoddiad o'r gwasanaeth hwnnw a gweld a allai'r Cyngor wneud hyn am well gwerth am arian ac yn fwy cynaliadwy pe bai'n ei wneud mewn ffordd wahanol. Gallai hyn fod yn sail ar gyfer adroddiad yn y dyfodol i'r Cabinet gyda rhai argymhellion ac atgyfeiriad yn fwy na thebyg i'r Pwyllgor hwn. Croesawodd y Cynghorydd y dull hwn, gan gysylltu ag awdurdodau eraill, ac i fabwysiadu dull mwy 'economi gylchol'. Roedd yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor.

Mynegodd y Cynghorydd Drake bryderon ynghylch gwaredu fêps tafladwy a thanau posib yn cael eu hachosi o ganlyniad. Cadarnhawyd na fu adroddiadau diweddar am danau o'r fath yn digwydd, a'r pryder allweddol oedd ynghylch mathau eraill o fatris a oedd yn mynd i wastraff cyffredinol, fel y rhai a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer offer pŵer, pan nad oedd trigolion yn defnyddio'r bag batri a ddyrannwyd na'n gwaredu yn y ganolfan ailgylchu. Gallai adolygiad Llywodraeth Cymru o wahardd fêps tafladwy o bosibl hefyd helpu i fynd i'r afael â'r rhain yn llithro drwy'r ffrwd wastraff a lliniaru sbwriel stryd.

Siaradodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau hefyd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr economi gylchol wrth helpu i fynd i'r afael â gwastraff diangen, y defnydd mwy o siopau ailddefnyddio a bwrw targed sero net 2050 fel rhan o hyn hefyd. Roedd yn teimlo bod modd bwrw'r targed ailgylchu o 70%, yn ogystal â thynnu sylw at fanteision y newidiadau gwastraff gwyrdd a ddeddfwyd gan y Cyngor. Dymunai ddiolch i holl staff a swyddogion y Cyngor a oedd yn ymwneud â rheoli gwastraff ac ailgylchu.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys yr Adroddiad Diweddaru – Newidiadau i'r Gwasanaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2024.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor o'r diweddariad.